

Ry'n ni wedi cadw feiliau a elwir yn cwcis ar eich dyfais. Mae'r cwcis hyn:


- [yn hanfodol i'r safle weithio](#)

Byddem hefyd yn hoffi cadw rhai cwcis i'n helpu ni:

- [i wella'n gwefan drwy gasglu ac adrodd gwybodaeth ar sut yr ydych yn defnyddio'r safle](#)
- [i deilwra cyfathrebu](#)

[Derbyn cwcis](#)

[Newid gosodiadau cwcis](#)



English



>> Dilynwch y cyngor ar gyfer y coronafeirws (COVID-19)

[Hafan](#) > [Coronafeirws \(COVID-19\)](#) > [Addysg a gofal plant: coronafeirws](#) > [Ysgolion: coronafeirws](#) >

Canllawiau diwygiedig ar gyfer ysgolion Cymru: helpu plant sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim

CANLLAWIAU

Canllawiau diwygiedig ar gyfer ysgolion Cymru: helpu plant sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim

Sut gall ysgolion barhau i ddarparu bwyd i blant sy'n derbyn prydau ysgol am ddim.

Rhan o: [Bwyd a diodydd mewn ysgolion a Ysgolion: coronafeirws](#)

Cyhoeddwyd gyntaf: 20 Mawrth 2020

Diweddarwyd ddiwethaf: 22 Mehefin 2020

Cynnwys

[Trosolwg](#)

[Y ddarpariaeth bresennol ar gyfer Prydau Ysgol am Ddim](#)

[Opsionau a awgrymir](#)

[Deietau arbennig](#)

[Ymgysylltu â theuluoedd](#)

[Hawl wyr budd-daliadau presennol nad ydynt yn derbyn prydau ysgol am ddim](#)

[Disgyblion ym mlynnyddoedd 11 a 13](#)

[Teuluoedd heb droi at arian cyhoeddus](#)

[Costau](#)

Trosolwg

Mae'r canllawiau yn nodi'r hyn y dylai ysgolion ac awdurdodau lleol ei wneud er mwyn helpu i sicrhau fod disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim yn parhau i gael bwyd tra bo'u haddysg statudol wedi'i hatal dros dro yn sgil sefyllfa COVID-19.

Y ddarpariaeth bresennol ar gyfer Prydau Ysgol am Ddim

Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl y bydd ysgolion yn parhau i ddarparu cinio ar gyfer disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (gan gynnwys y rhai sy'n cael eu hamddiffyn wrth bontio) yn ystod y cyfnod pan na fyddant yn gallu mynd i'r ysgol o ganlyniad i COVID-19. Mae'r ddarpariaeth wedi cynnwys Gwylliau'r Pasg a'r egwyl hanner tymor y gwanwyn, bydd hefyd yn cynnwys gwylliau'r haf (27 Gorffennaf - 31 Awst).

I gael [gwybod pa ddarpariaeth prydau ysgol am ddim sydd ar gael yn eich awdurdod lleol a sut i wneud cais](#).

Yng ngoleuni cyngor y llywodraeth fe'ch cynghorir yn awr na ddylai plant sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim fynd i'r ysgol os nad ydynt yn blant i weithwyr allweddol neu wedi'u pennu fel plant agored i niwed. Rydym yn ymwybodol o'r systemau lleol sydd wedi'u gosod i ymateb yn gyflym iawn i'r sefyllfa o gau ysgolion, ac yn ddiolchgar iawn amdanant, ond gan fod angen cyfyngu gymaint â phosibl nawr ar unrhyw deithio, rhaid eu hadolygu.

Opsionau a awgrymir

Mae gennym hyder yn yr ffordd y mae awdurdodau lleol Cymru wedi ymateb yn gyflym i'r argyfwng hwn, ac rydym yn ymwybodol bod dulliau lleol yn gweithio'n dda. Er mwyn mynd i'r afael ag anghenion teuluoedd sy'n agored i niwed, efallai y bydd angen i awdurdodau lleol weithredu nifer o gynlluniau ochr yn ochr.

Mae'r opsiynau a amlinellir isod yn gofyn am lai o ryngweithio cymdeithasol ac rydym yn argymhell bod ysgolion ac awdurdodau lleol yn eu hystyried. Nid yw'r rhain yn gynhwysfawr ac efallai y bydd dewisiadau amgen y mae awdurdodau lleol yn teimlo y byddent yn gweithio'n well yn lleol, fodd bynnag, mae'n hanfodol bod awdurdodau lleol yn sicrhau bod mesurau pellhau cymdeithasol priodol yn cael eu cynnal. Er enghraifft, ni ddylai teuluoedd fod yn teithio i gasglu bwyd oni bai bod hynny'n amhosibl ei osgoi.

Darparu talebau bwyd

Mae gan ysgolion neu awdurdodau lleol ddisgresiwn i brynu talebau rhodd neu e-dalebau gan archfarchnadoedd neu siopau lleol. Dylid dewis manwerthwyr sy'n masnachu yn yr ardal. Yn ddelfrydol, dylid cyfyngu'r hyn y gellir ei brynu â'r daleb i eitemau bwyd, ond rydym yn derbyn na fydd manwerthwyr bob amser yn gallu gwneud hynny. Os na fydd modd cyfyngu'r talebau i eitemau bwyd, gellid rhoi neges gyda'r daleb i ddweud wrth y rhieni a'r gofawlyr mai dim ond bwyd ddylid ei brynu â nhw.

Gellir prynu talebau'n uniongyrchol gan y manwerthwr ac mae'n bosibl y bydd modd eu harchebu mewn un swmp drwy is-adran gorfforaethol y manwerthwr. Mewn rhai achosion, mae'n bosibl y bydd modd i chi negodi gostyngiad mewn pris am brynu swmp o dalebau gan y manwerthwr.

Mae'r talebau'n werth £3.90 mewn arian parod fesul plentyn, fesul dydd, ac ar hyn o bryd rydym yn awgrymu bod y talebau'n cael eu dosbarthu'n wythnosol (5 diwrnod yr wythnos yn unol â'r ddarpariaeth bresennol o brydau ysgol am ddim). Bydd awdurdodau lleol yn gallu adhawlio cost ychwanegol y talebau neu'r talebau rhodd a brynnwyr ar ran eu hysgolion oddi wrth Llywodraeth Cymru.

Cludo eitemau bwyd at deuluoedd disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim

Efallai y byddwch yn dewis cydweithredu â busnesau lleol a sefydliadau'r trydydd sector i ddarparu ac i gyflenwi parceli bwyd ar gyfer plant sy'n cael prydau ysgol am ddim. Os byddwch yn dewis yr opsiwn hwn, bydd angen gofalu bod y mesurau priodol yn eu lle i gadw pellter cymdeithasol, ac ymgynghori â'r teuluoedd. Gallai hwn fod yn opsiwn defnyddiol i'r teuluoedd hynny nad ydynt, am ba reswm bynnag, yn gallu cael gafael ar gyflenwad o fwyd. Efallai eu bod yn ynysu eu hunain yn sgil y feirws, neu nad oes archfarchnad leol ar gael iddynt. O ganlyniad, rydym yn argymhell y dylid ystyried yr opsiwn hwn dim ond os yw'r teuluoedd wedi dweud eu bod yn fodlon i'r bwyd gael ei gludo atynt.

Gallai parceli bwyd gynnwys cynhwysion, ryseitiau a chyngor ar sut i gadw'r bwyd. Gellir hefyd ddefnyddio eitemau 'hir oes' a fydd yn para am ychydig wythnosau.

Gallai hynny gael ei wneud gan sefydliad lleol, fel elusen, a fyddai'n cydgyssylltu'r ceisiadau a wneir am gymorth.

Mae cyfle i ddatblygu'r opsiwn hwn mewn partneriaeth â dulliau cyflenwi eraill fel gwasanaethau pryd ar glud.

Trosglwyddo cyllid i gyfrifon banc teuluoedd sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (taliadau BACS)

Byddai'r opsiwn hwn yn caniatáu i dîm llyfr prynu'r awdurdod lleol drosglwyddo cyllid yn uniongyrchol i gyfrifon banc teuluoedd sydd â phlant sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim.

Yn ôl arolwg o'r awdurdodau lleol, mae teuluoedd sydd ar hyn o bryd yn derbyn Grant Datblygu Disgyblion yn cael y prif daliadau yn uniongyrchol i'w cyfrifon. Mae rhai eithriadau, gyda rhai awdurdodau lleol hefyd yn defnyddio talebau neu sieciau i deuluoedd sydd am ryw reswm neu'i gilydd yn methu defnyddio'r opsiwn BACS.

Fodd bynnag, nid yw pob teulu sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn gymwys am y Grant Datblygu Disgyblion - Mynediad, felly bydd angen cysylltu â'r teuluoedd hynny i ofyn am eu manylion banc os byddwch yn dewis yr opsiwn hwn. Gallai hynny fod drwy e-bost yn gofyn i'r derbynwyr fewngofnodi i wefan y cyngor i roi eu manylion banc. Sylwch, am resymau diogelwch, ni ddylid gofyn i unrhyw un roi manylion banc drwy e-bost neu neges destun.

Bydd mesurau cadw pellter cymdeithasol yn cael eu cynnal gan y bydd teuluoedd yn cael lwfans prydau ysgol am ddim eu plant wedi'i dalu'n uniongyrchol i'w cyfrif banc, i'w wario wrth siopa. Ni fydd angen unrhyw deithio ychwanegol na chysylltiad ag eraill oni bai am yr hyn sy'n hanfodol.

E-byst twyllodrus

Rhaid i awdurdodau lleol sicrhau bod eu teuluoedd cymwys yn gwybod bod negeseuon e-bost twyllodrus yn cael eu hanfon, yn gofyn i deuluoedd roi eu manylion banc drwy e-bost. Rhaid i awdurdodau lleol fod yn effro i ymateb i negeseuon o'r fath, a rhoi gwybod i'r teuluoedd cyn gynted ag y bo modd. Byddwn yn rhoi rhybudd ar bob cyfrwng sydd gennym i godi ymwybyddiaeth am y mater hwn.

Deietau arbennig

Os byddwch yn dewis cludo bwyd i'r disgyblion, bydd angen i chi sicrhau eich bod yn darparu ar gyfer disgyblion â deietau arbennig neu alergeddau. Rhaid gofalu eich bod yn gwirio gyda'r teuluoedd a oes alergeddau neu ddeietau arbennig gan unrhyw ddisgyblion cyn dosbarthu bwyd iddyn nhw.

A oes angen i mi gydymffurfio â Rheoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Gofynion a Safonau Maeth) (Cymru) 2013 o hyd?

Rydym yn cynnabod ei bod yn fwy heriol cydymffurfio â'r Rheoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion dan yr amgylchiadau eithriadol sydd rheoliol. Dan yr amgylchiadau, rydym yn argymhell y dylid gwneud pob ymdrech i sicrhau fod y bwyd sy'n cael ei ddarparu i ddisgyblion mor iach a maethlon â phosib, o fewn cyfyngiadau presennol y cadwyni cyflenwi iach a chenedlaethol.

Ymgysylltu â theuluoedd

Dylai awdurdodau lleol sicrhau bod eu gwefannau yn gyfoes â gwybodaeth i rieni ar sut y maent yn manteisio ar y ddarpariaeth a wneir yn lle prydau ysgol am ddim.

Rydym yn annog awdurdodau lleol i fod yn rhagweithiol wrth nodi dysgwyr sydd, o dan amgylchiadau arferol, yn derbyn prydau ysgol am ddim ond nad ydyn nhw'n cyrchu'r ddarpariaeth hon ar hyn o bryd. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod pob dysgwr yn cael y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt.

Hawl wyr budd-daliadau presennol nad ydynt yn derbyn prydau ysgol am ddim

Mae Adran 6 o Fesur Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Cymru) 2009, yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol sy'n darparu prydau ysgol am ddim annog cymryd, a chymryd camau rhesymol i sicrhau bod pob dysgwr sydd â hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim yn eu derbyn. Yn yr argyfwng presennol mae'n bwysicach nag erioed bod awdurdodau lleol yn cymryd pob cyfle i gefnogi ac annog teuluoedd i hawlio pryd ysgol am ddim.

Mae'n debygol y bydd nifer sylweddol o deuluoedd sy'n eu cael eu hunain yn y sefyllfa lle maent yn gymwys i hawlio prydau ysgol am ddim am y tro cyntaf, yn ystod yr achosion. Mae'n hanfodol bod y teuluoedd hyn hefyd yn cael eu hystyried yn rhagweithiol i hawlio prydau ysgol am ddim ac o gael yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnynt.

Disgyblion ym mlynnyddoedd 11 a 13

O dan amgylchiadau arferol, ni fyddai disgyblion ym mlynnyddoedd 11 a 13 sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn cael y prydau hyn ar ôl mis Mehefin, pryd yr ystyrid eu bod wedi gadael yr ysgol. Yn ystod argyfwng COVID-19, mae Llywodraeth Cymru yn fodlon i'r ddarpariaeth prydau am ddim barhau i fod ar gael i ddisgyblion cymwys ym mlynnyddoedd 11 a 13 ar ôl mis Mehefin a chydol gwylliau haf yr ysgolion, fel sy'n digwydd yn achos disgyblion mewn grwpiau eraill. Gall awdurdodau lleol aedennill costau ychwanegol a ysgwyddir yn sgil hyn oddi wrth Llywodraeth Cymru.

Teuluoedd heb droi at arian cyhoeddus

Efallai y bydd teuluoedd neu eu cynrychiolwyr yn cysylltu ag awdurdodau lleol, oherwydd eu bod yn profi caledi difrifol oherwydd nad oes ganddynt hawl i arian cyhoeddus. Byddem yn annog awdurdodau lleol yn gryf i arfer eu ddisgresiwn i ganiatáu i blant y teuluoedd hyn elwa ar ddarpariaeth prydau ysgol am ddim gan awdurdodau lleol trwy gydol cau'r ysgol.

Costau

Pan nad yw ysgolion o dan ymrwymiad contractiol, dylech ddefnyddio'r cyllid presennol a ddyrannwyd ar gyfer arianyw mewn ysgolion i ariannu darparu prydau ysgol am ddim.

Mewn achosion lle'r aethpwyd i gostau ychwanegol er mwyn darparu bwyd i ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim, bydd Llywodraeth Cymru yn addael i'r costau pan ellir dangos eich bod wedi mynd i'r costau hynny o ganlyniad i ddelio â COVID-19.

[Adrodd am unrhyw beth sy'n bod gyda'r dudalen hon](#)

[Rhanu'r dudalen hon](#)

[Nôl i dop y dudalen](#)

[Cyhoeddwyd gyntaf](#)

20 Mawrth 2020

Rhan o

[Bwyd a diodydd mewn ysgolion](#)

[Ysgolion: coronafeirws](#)

Diweddarwyd ddiwethaf

22 Mehefin 2020

[Adrodd am unrhyw beth sy'n bod gyda'r dudalen hon](#)

[Rhanu'r dudalen hon](#)

[Nôl i dop y dudalen](#)

Cysylltu â ni Hygyrchedd Datganiad hawlfraint Cwcis Preifatrwydd Telerau ac amodau

